Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Bwrdd Plismona** |
| Lleoliad: | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| Dyddiad: | **16 Medi 2016** |
| Amser: | **10:00 – 11:10** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS)<br>PC Jo Thompson, Swyddog Staff Cynorthwyol (JT) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 31/08/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2043** | **Y Rheolwr Ariannu Allanol SCHTh a'r Ditectif Arolygydd Anthony yn datblygu achos busnes ar gyfer defnyddio arian Deddf Elw Troseddau yn y dyfodol** | **Ar waith – i'w ddwyn ymlaen i gyfarfod 28/09/16** |
| **PB 2044** | **Cyflwyno adroddiad ynghylch adolygiad o deledu cylch cyfyng i gyfarfod y Bwrdd Plismona ddiwedd mis Medi** | **Ar waith** |
| **PB 2045** | **Trefnu uwch-gynhadledd cynllunio ariannol a galw SCHTh a'r Grŵp Prif Swyddogion ar gyfer Ionawr 2017** | **Uwch-gynhadledd i'w gynnal ym mis Rhagfyr 2016** |
| **PB 2046** | **Y PG i gyflwyno argymhelliad mewn perthynas ag ariannu'r rhaglen dargyfeirio a chynhwysiad ieuenctid Cymru gyfan** | **Ar waith** |
| **PB 2047** | **Y PG i adolygu nifer y pecynnau profi anadl ar ochr y ffordd a rhoi adroddiad i'r CHTh** | **Cwblhawyd** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 16/09/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif penderfyniad** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| **PB T2 07** | **Y CHTh yn cymeradwyo cyfraniad o £3000 i'r Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs'** | **Andy John** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Awst a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

PB 2045 – cytunwyd y byddai'n fwy priodol dal yr uwch-gynhadledd ym mis Rhagfyr er mwyn hysbysu gosod y praesept. Ystyriodd y CHTh y byddai'n fuddiol gwahodd y Panel Heddlu a Throseddu i fod yn rhan o'r uwch-gynhadledd. Cytunodd EH a CM i weithio gyda'r PSA i drefnu'r Uwch-gynhadledd.

PB 2046 – dywedodd y PG y byddai'r Cydlynydd Cyswllt Ysgolion yn cwblhau gwerthusiad llawn o'r rhaglen 'Ysgogi Ein Hieuenctid' ac yn cyflwyno adroddiad erbyn diwedd Hydref. Bydd y PG yn gwneud argymhelliad i'r CHTh ar ôl derbyn y gwerthusiad. Cytunwyd y byddai ymateb dros dro'n cael ei anfon at CHTh Gwent.

**Cam gweithredu: PG i ddarparu ymateb dros dro i CHTh Gwent mewn perthynas â'r cynnig o ran rhaglen dargyfeirio a chynnwys ieuenctid Cymru gyfan**

PB 2047 – Ystyriodd MMS bod y 167 dyfais sgrinio electronig sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol mewn perthynas â nifer y cerbydau â marciau; fodd bynnag, roedd angen gofal er mwyn rheoli eu dosbarthu. Hysbysodd MMS y CHTh bod angen diweddariad, a fydd yn cael ei ariannu gan yr heddlu. Diolchodd y CHTh MMS am y wybodaeth, a byddai'n cwrdd â'r gymuned i drafod pryderon a godwyd mewn perthynas â'r mater.

## Diweddariad y Prif Gwnstabl

Adroddodd y CHTh bod 7 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd.

Roedd hi'n dda gan y PG adrodd ar yr euogfarn llofruddiaeth a oedd wedi'i adrodd yn y wasg yn ddiweddar. Gofynnodd y CHTh am enwau'r swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r achos, a chytunodd MMS i'w rhoi iddo.

**Cam gweithredu: MMS i roi enwau'r swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r euogfarn llofruddiaeth ddiweddar i'r CHTh**

Darparodd y PG drosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys damwain angheuol yn Temple Bar. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â sut y defnyddir digwyddiadau a phryderon cymunedol i ddylanwadu ar leoli camerâu cyflymder GanBwyll. Dywedodd y PG y dylid cyfeirio unrhyw bryderon at y DBG a fydd yn mynd i'r afael â'r mater drwy dasgio'r Heddlu.

Tynnodd MMS sylw at ffordd a fydd yn cael ei chau, a fydd yn gweld traffig yn cael ei gyfeirio heibio i safle'r Pencadlys. Dywedodd y bydd camera cyflymder yn bresennol er mwyn darparu sicrwydd cymunedol.

## Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu

Cadarnhaodd y CHTh mai'r ymgeisydd o ddewis ar gyfer Prif Gwnstabl yn Nyfed-Powys oedd Mark Collins, sy'n Ddirprwy BG yn Swydd Rhydwely ar hyn o bryd. Trefnwyd

gwrandawiad cadarnhau gyda'r Panel Heddlu a Throseddu ar gyfer 30 Medi. Dywedodd CM bod Heddlu Swydd Rhydwely'n awyddus i barhau i hysbysebu ar gyfer y swydd wag ganlyniadol, cyn y gwrandawiad cadarnhau. Roedd CM wedi cynghori y gellir gwneud hyn, ond y byddai'n rhaid i'r hysbyseb gael ei dynnu yn ôl pe bai'r Panel Heddlu a Throseddu'n gwahardd penderfyniad y Comisiynydd i benodi Mr Collins. Diolchodd y CHTh CM am ei gwaith o ran cydlynu'r gweithdrefnau. Ystyriodd eu bod wedi rhedeg yn esmwyth a phroffesiynol. Roedd y CHTh yn fodlon â'r panel penodi, a'r paneli rhanddeiliaid mewnol ac allanol a oedd yn gysylltiedig â'r broses. Derbyniwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â'r broses, ac ystyriwyd ei bod yn llwyddiant bod yr hysbyseb wedi denu 4 ymgeisydd. Dywedodd y PG y byddai'n gweithio gyda Mr Collins er mwyn sicrhau trawsnewid llyfn. Hefyd, diolchodd y CHTh y PG am ei gefnogaeth drwy'r broses.

Roedd y CHTh wedi mynychu ei gyfarfod Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, lle trafodwyd y defnydd o ddronau a gweithredu awyren adenydd sefydlog yn y dyfodol. Roedd y CHTh yn siomedig nad oedd data perfformiad wedi'i drafod yn y cyfarfod.

Dywedodd y CHTh bod adnewyddu bloc llety'r Pencadlys wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor yn y cyfarfod diwethaf, ond nododd bod angen symud ymlaen â hyn yng nghyd-destun datblygiadau strategol ehangach y Pencadlys. Roedd y CHTh wedi cwrdd ag amrywiol adrannau i drafod eu gofynion, a thasgwyd y Cyfarwyddwr Ystadau i sefydlu gweithgor ar gyfer edrych ar ddatblygiadau safle'r Pencadlys. Roedd y CHTh yn glir yr hoffai weld Pencadlys HDP fel canolfan ar gyfer pob dim sy'n ymwneud â chyfraith a threfn yng Ngorllewin Cymru er mwyn diogelu swyddi lleol a chynnal cyflenwi gwasanaethau lleol. Dywedodd y CHTh bod llythyr wedi'i anfon at Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am grynodeb manwl ar gyfer safle newydd dalfa Sir Gaerfyrddin. Disgwyliwyd cyfarfod terfynol gyda'r PGC er mwyn cytuno i ofynion gweithredol y cyfleuster.

Roedd y CHTh wedi cynnal cyfres o frecwastau busnes ledled yr ardal heddlu yn ystod Wythnos Busnesau Bach yr wythnos diwethaf. Defnyddir adborth o hyn i hysbysu datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Roedd y CHTh wedi tasgio ei Reolwr Llywodraethu i geisio adborth gan yr Heddlu mewn perthynas â'r Asesiad Strategol a'i gysylltiad â'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Dywedodd CM y byddai cynrychiolwyr o SCHTh yn mynychu Fforwm Uwch Arweinwyr yr Heddlu a 5 Hydref er mwyn ymgysylltu ag uwch arweinwyr i fwydo'u barn i mewn i'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

## Diweddariadau

### *Diweddariad ynghylch gwasanaethau meddygol fforensig*

Dywedodd y PG y byddai'r PGC yn cwrdd â chynrychiolydd o'r' Bwrdd Iechyd yn ddiweddarach heddiw i drafod y mater. Roedd y PG yn disgwyl argymhelliad adran 28A gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn dilyn eu hymchwiliad i farwolaeth

unigolyn yn y ddalfa. Yn dilyn y rhain, bydd yr Heddlu mewn sefyllfa i ddwyn y mater yn ôl i'r cyfarfod ar gyfer trafodaeth bellach.

***Anghenion plismona yn y dyfodol yn Sir Benfro***

Dywedodd y PG bod hyn mewn llaw drwy'r Grŵp Strategaeth Ystadau. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r CHTh a'r PGC i drafod y mater ymhellach.

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Cost a Pherfformiad Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu***

Cyflwynodd y PG adroddiad a oedd yn dadansoddi cost a pherfformiad Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu rhwng Ionawr a Mehefin 2016. Cafwyd trafodaethau mewn perthynas â'r wybodaeth sydd ar gael ac oblygiadau hyn ar gyfer Dyfed-Powys. Dywedodd EH bod data a gyflwynwyd yn awgrymu bod angen cyflwyno achos i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer adolygu lefelau ariannu. Cadarnhaodd EH bod y dyraniad gyllideb cyfredol yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai model ariannu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu'n parhau'r un fath.

***Gohebiaeth a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref***

Nododd y CHTh lythyr a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas â fformiwla ariannu'r Heddlu. Roedd y CHTh a'r PG wedi'u calonogi bod y llythyr yn cynnig cyfle i ymateb i ymgynghoriad pellach ar y cynigion. Ystyriodd y PG ei bod hi'n ddoeth trefnu cyfarfod â'r Gweinidog Gwladol dros Blismona i drafod sut y bydd y cynigion yn effeithio ar HDP. Cytunodd EH i ddarparu briffiad i'r CHTh ar y ddealltwriaeth gyfredol o'r fformiwla ariannu a'i effaith bosibl ar HDP. Hefyd, cytunodd y CHTh i ysgrifennu at ASau, ACau ac Arweinwyr Awdurdod lleol i drafod y fformiwla ariannu.

**Cam gweithredu: Gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog Gwladol dros Blismona**

**Cam gweithredu: EH i roi briffiad i'r CHTh ar fformiwla ariannu'r heddlu**

**Cam gweithredu: CHTh i ddrafftio llythyr i ASau, ACau ac Arweinwyr Cyngor yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y fformiwla ariannu a'u gwahodd i friffiad fel mater o frys**

***Y Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs'***

Nododd y CHTh femorandwm gan y Ditectif Uwch-arolygydd Andy John mewn perthynas â chyfraniad at y Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs', sef elusen sy'n anelu i ddod â thrais

yn erbyn gweithwyr rhyw i ben. Ystyriodd y PG y byddai'n briodol cyfrannu a pharhau i gyfrannu er mwyn sicrhau cefnogaeth yn y dyfodol pe bai angen. Cymeradwyodd y CHTh gyfraniad o £3000 i gefnogi'r cynllun.

**Penderfyniad: Y CHTh yn cymeradwyo cyfraniad o £3000 i'r Cynllun Cenedlaethol 'Ugly Mugs'**

***Gwobrwyo'r Tendr Bwyler***

Nododd y CHTh bod y PSA wedi cymeradwyo'r cytundeb ar gyfer y pecyn gwaith amnewid bwyler i gwmni Aber Heating yn dilyn ymarfer tendr a arweiniodd at un ymateb. Y cyfanswm ar gyfer y gwaith yw £432,540.

***Gwobrwyo cyllid – Gwaith Teledu Cylch Cyfyng a Systemau Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig***

Nododd y CHTh ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n cadarnhau bod HDP wedi derbyn cyllid gwrthderfysgaeth ar gyfer uwchraddio systemau Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (ANPR) a theledu cylch cyfyng yn y porthladdoedd, hyd at werth o £96,462.

Dywedodd y CHTh bod Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu'n gweithio ar ddatblygu rheoli data ANPR cenedlaethol. Dywedodd EH bod y PSA yn gysylltiedig â grŵp strategaeth lleol mewn perthynas ag ANPR.

***Treth Prentisiaeth***

Dywedodd EH y byddai cyflwyno'r dreth yn costio tua £0.5 miliwn i HDP. Ystyriodd y PG bod y cyfle i ddefnyddio prentisiaethau'n gadarnhaol. Dywedodd EH bod y Coleg Plismona wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch sut i wneud cais am gyllid ar gyfer sefydlu cynlluniau prentisiaeth, fodd bynnag, roedd y canllawiau ond yn berthnasol ar gyfer Lloegr. Roedd angen trafod â Llywodraeth Cymru er mwyn cytuno ar y model cyflwyno yng Nghymru. Awgrymodd y PG y gellid codi'r mater yn y cyfarfod nesaf â'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant.

Roedd y CHTh yn cefnogi'r syniad bod HDP yn datblygu cynllun prentisiaeth. Dywedodd CM bod nifer o adrannau wedi mynegi diddordeb mewn derbyn prentisiaid. Cadarnhaodd EH mai hyn oedd yr achos. Ystyriodd y PG bod gan y sefydliad brofiad o hyfforddi unigolion o fewn eu rolau, a byddai ffurfioli hyn drwy gynllun prentisiaeth yn gam cadarnhaol.

**Cam gweithredu: CHTh i godi'r mater o dreth prentisiaeth â'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant**

**Cam gweithredu: Rheolwr Ariannu Allanol i symud ymlaen â chyfle i gyflwyno cynllun prentisiaeth yn SCHTh**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/09/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2048** | **PG i ddarparu ymateb dros dro i CHTh Gwent mewn perthynas â'r cynnig o ran rhaglen dargyfeirio a chynnwys ieuenctid Cymru gyfan** | **PG** |
| **PB 2049** | **MMS i roi enwau'r swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r euogfarn llofruddiaeth ddiweddar i'r CHTh** | **MMS** |
| **PB 2050** | **Gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog Gwladol dros Blismona** | **CM** |
| **PB 2051** | **EH i roi briffiad i'r CHTh ar fformiwla ariannu'r heddlu** | **EH** |
| **PB 2052** | **CHTh i ddrafftio llythyr i ASau, ACau ac Arweinwyr Cyngor yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y fformiwla ariannu a'u gwahodd i friffiad fel mater o frys** | **CM** |
| **PB 2053** | **CHTh i godi'r mater o dreth prentisiaeth â'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant** | **CHTh** |
| **PB 2054** | **Rheolwr Ariannu Allanol i symud ymlaen â chyfle i gyflwyno cynllun prentisiaeth yn SCHTh** | **JW** |